**COFNODION CYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 8 EBRILL 2021 DRWY ZOOM AM 10.00AM**

Yn Bresennol: Yr Athro Stuart Palmer (Cadeirydd), yr Athro Colin Riordan, yr Athro Rudolf Allemann, yr Athro Rachel Ashworth, Paul Baston, Ricardo Calil, Hannah Doe, Tomos Evans, Judith Fabian, yr Athro Fonesig Janet Finch, yr Athro Kim Graham, yr Athro Ken Hamilton, Michael Hampson, Karen Harvey-Cooke, yr Athro Karen Holford, Chris Jones, Jan Juillerat, Dr Steven Luke, Dr Joanna Newman [Cofnod 1888-1901], Len Richards [Cofnodion 1883-1897], Dr Pretty Sagoo, John Shakeshaft, David Simmons, y Barnwr Ray Singh, Dr Janet Wademan ac Agnes Xavier-Phillips.

Yn bresennol: Katy Dale (Cofnodion), Rashi Jain, Sue Midha [Cofnodion 1905-1906], Claire Morgan, James Plumb (Cofnodion), Melanie Rimmer, Ruth Robertson, Claire Sanders, yr Athro Ian Weeks a Robert Williams.

Ymddiheuriadau: Yr Athro Damian Walford Davies

**1883 CROESO A MATERION RHAGARWEINIOL**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**1884 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Damian Walford Davies. Cadarnhawyd bod gan y cyfarfod gworwm.

**1885 COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR AR 23 CHWEFROR 2020**

NODWYD Y CANLYNOL

1885.1 dylid diwygio munud 1868.3 i ddarllen "arferion da".

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1885.2 cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2020, yn amodol ar y gwelliannau uchod.

**1886 MATERION YN CODI**

NODWYD Y CANLYNOL

1886.1 byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Arolwg Staff yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill.

**1887 DATGAN BUDDIANT**

NODWYD Y CANLYNOL

1887.1 Datganodd yr Athro Fonesig Janet Finch fuddiant mewn perthynas ag eitem 21 ar yr agenda (Aelodaeth o Bartneriaeth SETSquared), gan ei bod yn aelod o Research England a oedd yn un o brif arianwyr Partneriaeth SETSquared.

**1888 ADRODDIAD Y CADEIRYDD I'R CYNGOR**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/429C, 'Adroddiad y Cadeirydd i'r Cyngor'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1888.1 roedd y papur yn cynnwys llawer iawn o ddiolchiadau ac roedd yn braf gweld hyn o ystyried o ystyried amgylchiadau anodd y pandemig,

1888.2 [HEPGORWYD]

1888.3 cynhaliwyd munud o dawelwch ar gyfer y marwolaethau a nodwyd;

1888.4 gwnaed nifer o gamau gweithredu gan y Cadeirydd ac roeddent wedi'u rhestru yn y papur;

1888.5 yn amodol ar ganllawiau a chyfyngiadau cyfredol, cynigiwyd bod pob cyfarfod pwyllgor ar wahân i'r Cyngor yn ystod y sesiwn 21/22 yn cael ei gynnal yn rhithwir gydag un cyfarfod o bob prif bwyllgor yn y flwyddyn academaidd i’w gynnal yn bersonol; byddai'r Cyngor yn cyfarfod yn bersonol, gan ddechrau gyda'r cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021;

1888.6 awgrymwyd Adolygiad o'r Llys, i edrych ar weithredu argymhellion yr adolygiad blaenorol, unwaith eto i gael ei gadeirio gan y Parchedig Ganon Gareth Powell ac yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfyrwyr; roedd y panel yn gobeithio rhoi adborth i'r Cyngor y flwyddyn academaidd hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1888.7 rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gwmnïau oedd wedi deillio o'r Brifysgol i gyfarfod yn y dyfodol.

**1889 ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR I'r CYNGOR**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/389C, 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Cyngor'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1889.1 roedd cyfraddau ymgeisio yn gadarnhaol ar y cyfan, er y bu gostyngiad o 21% mewn ceisiadau PGT Rhyngwladol (IPGT); gwelwyd hyn yn arbennig yng Ngholeg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ac o fewn yr Ysgol Fusnes, oherwydd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o Tsieina; fodd bynnag, digwyddodd y gostyngiad hwn ar draws y sector ac roedd y cyfraddau presennol yn parhau'n uwch na ffigurau dwy flynedd yn ôl;

1889.2 ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw bryder ynghylch y gostyngiad hwn yn y cyfraddau ymgeisio ar gyfer IPGT, o ystyried effaith barhaus COVID;

1889.3 roedd yn rhy fuan i ddweud a fyddai'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau IPGT yn arwain at ostyngiad mewn derbyniadau myfyrwyr a chyllid;

1889.4 roedd ceisiadau gan fyfyrwyr mewn categorïau eraill yn uwch na'r flwyddyn flaenorol;

1889.5 roedd y BBC wedi rhedeg erthygl mewn perthynas â gwasanaeth sgrinio'r Brifysgol; roedd hyn yn canolbwyntio ar honiadau gan gyn-weithiwr a oedd wedi bod yn Rheolwr y Labordai bod gweithredu'r gwasanaeth wedi cael ei wneud ar ruthr a bod defnyddio poer yn effeithio ar ddibynadwyedd y canlyniadau; yn ymarferol, profodd y prawf poer yn effeithiol ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o gyfran uchel o ganlyniadau negatifau anghywir oherwydd y prawf a gynigiwyd gan y Brifysgol; roedd y math hwn o brawf hefyd yn cael ei ddefnyddio gan Brifysgolion Nottingham a Southampton; estynnodd yr Is-Ganghellor ei ddiolchiadau i'r tîm Cyfathrebu a oedd wedi ymdrin ag ymateb y Brifysgol; cytunodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro na fu unrhyw bryderon gan y Bwrdd Iechyd na chan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r gwasanaeth hwn;

1889.6 rhagwelwyd y byddai eleni’n dangos adferiad demograffig ymhlith pobl ifanc 18 oed;

1889.7 cafodd Cynllun Turing (a ddisodlodd Erasmus+ yn rhannol) a chadarnhawyd £110m o gyllid ar gyfer y flwyddyn a 30,000 o grantiau; nodwyd hefyd bod cyfleoedd rhithwir i fyfyrwyr yn galluogi hyblygrwydd, hygyrchedd a rhwyddineb mynediad;

1889.8 roedd y Brifysgol yn rhagweithiol mewn perthynas â Horizon Europe ac yn gwneud cais am gyllid;

1889.9 nid oedd unrhyw eitemau iechyd a diogelwch sylweddol i'w hadrodd gan yr Is-Ganghellor.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1889.10 dylai adroddiad yr Is-Ganghellor gynnwys eitem sefydlog ar Iechyd a Diogelwch a fyddai'n nodi penawdau allweddol neu'n cadarnhau nad oedd unrhyw faterion o bwys i'w hadrodd; byddai'r Pwyllgor Llywodraethu yn parhau i dderbyn yr adroddiad manwl, a byddai'n cael ei dderbyn drwy'r adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu; gellid cyflwyno adroddiadau mwy manwl ar bynciau penodol drwy eithriad pan fyddai’r angen yn codi.

**1890 NEWYDDION DIWEDDARAF AM COVID-19**

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/390HC, 'Adroddiad Diweddaru COVID-19 i’r Cyngor'.

**1891 AIL-LUNIO'R FFORDD YMLAEN: IS-STRATEGAETHAU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/391C, 'Ail-lunio Is-strategaethau’r Ffordd Ymlaen'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1891.1 roedd arweinydd pob is-strategaeth wedi adolygu ac ymgynghori ar y fersiynau ail-lunio arfaethedig o'u his-strategaeth;

1891.2 roedd nifer o bethau anhysbys o hyd mewn perthynas â COVID-19 a'i oblygiadau;

1891.3 Roedd aelodau'r Cyngor wedi gwerthfawrogi'r cyfle i drafod yr is-strategaethau arfaethedig yn y digwyddiad ar 5 Chwefror;

1891.4 byddai o fudd nodi dangosyddion allweddol ar gyfer mesur gweithrediad llwyddiannus yr is-strategaethau ail-lunio.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1891.5 cymeradwyo'r is-strategaethau Addysg a Myfyrwyr Rhyngwladol;

1891.6 cymeradwyo cynigion ar gyfer monitro bob dwy flynedd.

**1892 PAPUR GWYN AR NEWID YN YR HINSAWDD**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/392C, 'Papur Gwyn y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd'. Gwahoddwyd y Dirprwy Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1892.1 ymunodd y Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfyrwyr â'r cyfarfod;

1892.2 nod y papur oedd sefydlu llinell sylfaen ar gyfer mesur cynaliadwyedd amgylcheddol y Brifysgol a darparu cynigion cychwynnol ar gyfer sicrhau sero net carbon erbyn 2030; byddai cynigion manylach i'w cymeradwyo yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol;

1892.3 mae gweithredu o'r math hwn yn unol â'r sector;

1892.4 teimlwyd y dylid cynnwys gweithgareddau cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol, nad ydynt yn eiddo) yn y targedau ar gyfer 2030;

1892.5 byddai'n bwysig cysylltu'r cynigion hyn â'r Uwchgynllun Ystadau; cadarnhawyd y byddai adolygiad o'r Uwchgynllun yn cael ei gynnal cyn iddo ddod i ben ar hyn o bryd yn 2025 ond byddai'r Brifysgol yn manteisio ar unrhyw newidiadau neu waith a gynlluniwyd cyn y dyddiad hwn;

1892.6 byddai o fudd gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i wneud y gorau o weithgareddau a gwybodaeth yn y maes hwn;

1892.7 roedd yn bwysig bod y cynigion hyn yn rhan annatod o weithrediad y Brifysgol;

1892.8 gwnaed sylweddol mewn perthynas â chynnal a chadw adeiladau ystadau, rhywbeth a fyddai'n lleihau allyriadau a dylid canmol y tîm am y gwaith hwn;

1892.9 gadawodd y Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau â Chynfyfyrwyr y cyfarfod ar ôl yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1892.10 cymeradwyo Papur Gwyn y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd: Cam 1 y Llwybr i Sero Net;

1892.11 cymeradwyo bod cynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i gynnwys yn y daflen glawr bapur ar gyfer Pwyllgorau'r Brifysgol.

**1893 ADRODDIAD LLYWYDD UNDEB Y MYFYRWYR**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/393, ‘Adroddiad Llywydd Undeb y Myfyrwyr’. Gwahoddwyd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1893.1 oherwydd gohirio’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, roedd y broses o benodi swyddogion sabothol y flwyddyn nesaf hefyd wedi cael ei gohirio.

**1894 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/394C, 'Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu i siarad am eitem hon

NODWYD Y CANLYNOL

1894.1 Gellir gofyn i aelodau'r Cyngor gymryd rhan mewn arolwg neu gyfweliadau fel rhan o Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu'r Brifysgol.

**1895 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GADEIRYDD Y CYNGOR**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/388, 'Disgrifiad Rôl Cadeirydd y Cyngor'. Gwahoddwyd Rashi Jain, Ysgrifennydd y Brifysgol, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1895.1 byddai'r Cadeirydd yn gallu gwasanaethu ei ail dymor yn olynol;

1895.2 cyfeiriodd cyfeiriadau at "reolaeth effeithiol" mewn perthynas â'r Cyngor at oruchwylio'r gweithgaredd hwn;

1895.3 dylid cynnwys cyfeiriad at Gadeirydd y Cyngor yn rhoi adborth i aelodau lleyg ar eu perfformiad.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1895.4 cymeradwyo'r disgrifiad swydd ar gyfer Cadeirydd y Cyngor, yn amodol ar ychwanegu cyfeiriad at fonitro perfformiad yr aelod lleyg.

**1896 ADOLYGIAD O’R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU 2020**

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/426, ‘Fframwaith Llywodraethu.’ Gwahoddwyd Ruth Robertson, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1896.1 darparwyd adroddiad gan y Senedd i'r Cyngor i oruchwylio'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â llywodraethu academaidd;

1896.2 byddai'r papur hwn yn darparu gwybodaeth sefydlu dda ar gyfer aelodau newydd o'r Cyngor.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1896.3 gwrthod y geiriad arfaethedig "datblygu rheoliadau a pholisi addysgol" mewn perthynas â phwerau'r Senedd, o ystyried nad oes gan y Senedd y pŵer i gymeradwyo polisi addysgol;

1896.4 cymeradwyo Diweddariad diwygiedig Fframwaith Llywodraethu 2020.

**1897 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/395C, 'Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1897.1 roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo ymgysylltu â'r archwilwyr allanol (PwC) i ddarparu gwasanaethau ychwanegol mewn perthynas â'r tap bondiau ac wedi cymeradwyo cysylltu â'r Cyngor Adrodd Ariannol i geisio hepgor rheolau'r cap ffioedd ynghylch gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio yn yr achos hwn;

1897.2 roedd y Pwyllgor wedi cynnal adolygiad o risg, gan edrych ar feysydd fel rheoli risg ac archwaeth risg.

**1898 ADOLYGIAD O’R GOFRESTR RISGIAU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/396C, ‘Cofrestr Risgiau’. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1898.1 [HEPGORWYD]

1898.2 Gadawodd Len Richards y cyfarfod ar ôl yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1898.3 dylid ychwanegu gwireddu buddion ar gyfer prosiectau cyfalaf at y gofrestr risgiau;

1898.4 cymeradwyo'r gofrestr risgiau, yn amodol ar yr ychwanegiad uchod.

**1899 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/397C 'Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1899.1 byddai'r Pwyllgor yn dechrau adolygu effeithiolrwydd masnachol rhaglenni cyfalaf.

**1900 ADRODDIAD ARIANNOL**

Darparodd y Prif Swyddog Ariannol ddiweddariad ar lafar ar yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1900.1 [HEPGORWYD]

1900.2 roedd y tîm wrthi'n rhoi gwedd derfynol ar gyfrifon hanner blwyddyn;

1900.3 [HEPGORWYD]

**1901 CYNLLUN GWEITHREDU I SICRHAU SEFYLLFA ADENNILL ARIANNOL YN 2021/22**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/398HC, 'Cynllunio a Chyllidebu Prifysgol Caerdydd'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1901.1 [HEPGORWYD]

1901.2 [HEPGORWYD]

1901.3 [HEPGORWYD]

1901.4 [HEPGORWYD]

1901.5 roedd yn bwysig sicrhau bod ystod eang o fetrigau a chymaryddion yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu cynigion;

1901.6 roedd cynlluniau senario manwl yn cael eu datblygu;

1901.7 dylid ystyried adolygiad o'r ystâd a'i heffaith ar y cynigion hyn;

1901.8 Gadawodd Joanna Newman y cyfarfod ar ôl yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1901.9 byddai'r Prif Swyddog Ariannol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu i gyfarfod dilynol o'r Cyngor.

**1902 CYNNIG TAP BONDIAU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/399C, 'Cyflawniad Tap Bond'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon. Ymunodd Francis Burkitt o gwmni Rothschild â'r cyfarfod i gyfrannu at yr eitem hon.

1902.1 Ymunodd Francis Burkitt â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon;

1902.2 [HEPGORWYD]

1902.3 mae'r Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wedi adolygu'r cynigion ac wedi argymell cymeradwyaeth;

1902.4 [HEPGORWYD]

1902.5 [HEPGORWYD]

1902.6 [HEPGORWYD]

1902.7 [HEPGORWYD]

1902.8 [HEPGORWYD]

1902.9 [HEPGORWYD]

1902.10 [HEPGORWYD]

1902.11 [HEPGORWYD]

1902.12 [HEPGORWYD]

1902.13 [HEPGORWYD]

1902.14 nododd y manylion a restrir unrhyw fuddiannau allanol oedd gan aelodau'r Cyngor a gofynnwyd i aelodau godi unrhyw faterion y dylid eu cywiro ynghylch hyn cyn gynted â phosibl;

1902.15 [HEPGORWYD]

1902.16 [HEPGORWYD]

1902.17 diolchwyd i Francis Burkitt, y Prif Swyddog Ariannol a'i dîm am eu gwaith caled ar y prosiect hwn.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1902.18 cymeradwyo lansio'r Rhifyn Tap a'r ffurf y cytunwyd arni ar y penderfyniadau fel y darperir ar eu cyfer yn Atodiad 1.

**1903 DIWEDDARIAD ARIANNOL CIC**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/430C, 'Diweddariad ar Gampws Arloesedd Caerdydd'. Gwahoddwyd y Dirprwy Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1903.1 [HEPGORWYD]

1903.2 penodwyd Cyfarwyddwr Rhaglen; roedd hyn yn un o argymhellion adroddiad ARUP;

1903.3 mewn perthynas â sicrhau bod buddiant cael eu gwireddu, roedd gan bob prosiect mawr noddwr ar lefel y Bwrdd Gweithredol Ac roedd rheolwyr cyflenwi buddiant yn y PMO.

**1904 AELODAETH O BARTNERIAETH SETSQUARED**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/400C, 'Aelodaeth SETSquared'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1904.1 roedd Partneriaeth SETSquared yn cynnwys aelodau o bartneriaeth GW4 a sefydliadau eraill Grŵp Russell;

1904.2 gweithiodd y Brifysgol yn agos gyda'r Bartneriaeth drwy'r Rhaglen Uwchraddio;

1904.3 [HEPGORWYD]

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1904.4 Caniatáu i’r Brifysgol ymuno â Phartneriaeth SETSquared.

**1905 DANGOSFWRDD ADNODDAU DYNOL**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/401C, 'Dangosfwrdd Adnoddau Dynol'. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1905.1 roedd y papur yn cynnwys data am chwarter cyntaf y flwyddyn academaidd, o 1 Awst i 31 Hydref 2020;

1905.2 roedd gwybodaeth enghreifftiol sefydliadol bellach wedi'i chynnwys yn y data;

1905.3 [HEPGORWYD]

1905.4 cyfrifwyd y cyfrif pennau yn ôl nifer y contractau; gall hyn arwain at gyfrif unigolion gyda mwy nag un contract ddwywaith.

**1906 ADRODDIAD Y PWYLLGOR DILEU SWYDDI I'R CYNGOR**

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/402C, 'Adroddiad y Pwyllgor Dileu Swyddi'.

**1906 ADRODDIAD Y PWYLLGOR TALIADAU I'R CYNGOR**

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/403C, 'Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau'.

**1907 UNRHYW FATER ARALL**

NODWYD nad oedd unrhyw fusnes arall.

**1908 DIWYGIADAU I ORDINHADAU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/404C 'Newidiadau i Ordinhadau'.

NODWYD Y CANLYNOL

1908.1 o dan Ordinhad 4, dylai'r geiriad "gellir ei ethol" aros er mwyn sicrhau hyblygrwydd yn y broses.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1908.2 o dan Ordinhad 4, dylid diwygio “cyfansoddiad” i “gystadleuaeth”;

1908.3 cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhadau.

**1909 EITEMAU A DDERBYNIWYD ER GWYBODAETH**

NODODD y Cyngor

Papur 20/405HC, 'Adroddiad Cyllideb ar gyfer 20/21'
Papur 20/406, 'Cynllun Gweithredol y Bwrdd Gweithredol'
Derbyniwyd papur 20/407 Grantiau a Chontractau Ymchwil
Papur 20/408 Seilio Trafodion
Papur 20/409C Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf

Cadeirydd…………………………………………………………………………………………
…

DYDDIAD